**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEDI 2011** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 AWST 2011** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin 2011 hyd at 31 Awst 2011.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2011:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 17 |
| Adroddiadau Eraill (memoranda ayb) | 2 |
| Adolygiadau Grant | 7 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |
| Archwiliadau Ymatebol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2011, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Arbedion Effeithlonrwydd | Corfforaethol | | B | Atodiad 1 |
| Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng | Corfforaethol | | C | Atodiad 2 |
| Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth a "TOIL" | Corfforaethol | | B | Atodiad 3 |
| System Taliadau - Newid Data Sefydlog | Cyllid | Ariannol | B | Atodiad 4 |
| Treth Cyngor - Casgliadau ac Ad-daliadau | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 5 |
| Datblygu Chwaraeon | Darparu a Hamdden | Hamdden | A | Atodiad 6 |
| Trefniadau TG i aelodau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Democratiaeth | C | Atodiad 7 |
| Treuliau Aelodau | Democratiaeth a Chyfreithiol | Democratiaeth | B | Atodiad 8 |
| Neuadd Dwyfor | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | B | Atodiad 9 |
| System Reoli Defnydd o'r Rhyngrwyd mewn Llyfrgelloedd | Gofal Cwsmer | Llyfrgelloedd | B | Atodiad 10 |
| Rheolaeth Asbestos | Gofal Cwsmer | Tir ac Eiddo'r Cyngor | B | Atodiad 11 |
| Contractau Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Busnes | B | Atodiad 12 |
| Cynnal a Chadw'r Gaeaf | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | B | Atodiad 13 |
| Trefniadau ar alwad ac ar ddyletswydd Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Gwaith Priffyrdd | B | Atodiad 14 |
| Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | CH | Atodiad 15 |
| Prosiect Pont Briwet | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | Dim Categori | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Caffael Cynaliadwy | Strategol a Gwella | Caffael ac Effeithlonrwydd | B | Atodiad 17 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Swyddogaethau Rheolwyr Safle** *(Corfforaethol).* Roedd yr archwiliad yma wedi ei gynnwys yn nghynllun archwilio 2011/12 gan yn sgil trafodaethau gyda swyddogion o'r Uned Eiddo yn dilyn archwiliad o drefniadau asesu diogelwch tân yn 2009/10. Bwriad yr archwiliad yma oedd gwirio fod trefniadau cadarn yn eu lle i sicrhau fod pawb sydd wedi eu hadnabod fel "rheolwr safle" ar gyfer gwahanol adeiladau'r Cyngor yn ymwybodol o'u swyddogaethau mewn perthynas ag asesiadau risg tân, asbestos a chlefyd y llengfilwyr. Gwelwyd yn ystod yr archwiliad fod swyddogion o'r Uned Iechyd a Diogelwch wedi sefydlu rhaglen waith i adolygu ac archwilio trefniadau rheolwyr safle. Oherwydd hyn, deuthum i'r casgliad na fyddai cynnal archwiliadau tebyg gan Archwilio Mewnol yn ddefnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor. Bwriedir cynnal adolygiad pellach, yn hwyrach yn ystod 2011/12, i wirio bod y gwaith yma yn parhau yn unol â'r rhaglen a ddisgrifiwyd yn Awst 2011.

- **Amgylcheddol - Cynnal y "Gazetteer"** *(Rheoleiddio).* Mae'r National Land and Property Gazetteer (NLPG) yn rhestr ddiamwys o gyfeiriadau cenedlaethol sy'n rhoi adnabyddiaeth unigryw o eiddo a thir. Cyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol yw diweddaru'r NLPG o fewn eu hardaloedd unigol, yn ogystal â chynnal cofrestr lleol (LLPG). Mae'r basdata yn dal gwybodaeth am fanylion eiddo megis rhif unigryw, cod post, rhif stryd (os yn berthnasol) a chyfesurynnau grid. Cwmpas yr adolygiad oedd adolygu trefniadau Cyngor Gwynedd i sicrhau bod y data yn ddilys a bod y data yn cael ei brosesu'n gywir. Profwyd cywirdeb yr wybodaeth ar y gofrestr leol yn erbyn cynlluniau amodol y Gwasanaeth Cynllunio, data eiddo – nid data personol – yn y system Treth Cyngor a'r gofrestr etholwyr, a basdata y Post Brenhinol (o'r we). Gwelwyd bod pob cyfeiriad o'r systemau eraill yn yr LLPG a gwelwyd bod pob eiddo o fewn yr un stryd gyda'r un rhif stryd.

## 2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd *(Addysg)*
- Grant Ysgolion Ffocws Gymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru *(Addysg)*
- Grant Cynllun Cyfeirio i Ymarfer Cenedlaethol *(Darparu a Hamdden)*
- Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw *(Economi a Chymuned)*
- Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Cyfalaf *(Economi a Chymuned)*
- Grant Datblygu Gweithio Trawsnewidiol yng Nghymru *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Grant Goruchwyliaeth Ddwys ac Arsylwi *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Gweithio Symudol a Diogelwch y Perimedr | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | **Derbyniol** |
| Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Uned Waith Priffyrdd | **Rhagorol** |
| Gwirio Rhestrau Gweithwyr | Adnoddau Dynol | Uned Cefnogol | **Derbyniol** |

2.4.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2011**

Neuadd Chwaraeon Bro Ffestiniog

Gorchmynion Ffyrdd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2011**

Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon

Diweddaru'r Wefan

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2012**

Diogelu Data Teledu Cylch Cyfyng

Uned Cludiant Cyhoeddus

Gwirio Dangosyddion Perfformiad

Rheolaeth Ffonau Symudol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2012**

Trefniadau TG i Aelodau

## 2.5 Archwiliad Ymatebol

2.5.1 Cwblhawyd un ymchwiliad ymatebol yn ystod y cyfnod. Yn y gwaith yma, bu archwiliwr yn cynnig cyngor ac arweiniad i'r Adran Economi a Chymuned ynglyn â gweinyddiaeth a defnydd un grant penodol.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Medi 2011.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Grantiau Addysg - Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru *(Addysg)*
- System Taliadau - Ardystio a Cywirdeb Codio *(Cyllid)*
- Treth Cyngor - Adennill a Gorfodaeth *(Cyllid)*
- Treth Di-Annedd - Adennill a Gorfodaeth *(Cyllid)*
- Digwyddiadau *(Economi a Chymuned)*
- Technoleg Rhithwir *(Gofal Cwsmer)*
- Casglu data gwastraff *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Fflyd y Cyngor - tachographs a ffobiau dosbarthu Disel *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Gwasanaethau Eiddo - Penodi Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Consortiwm Addysg Gogledd-Orllewin Cymru *(Addysg)*
- Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol *(Addysg)*
- Iechyd a diogelwch - tripiau ysgol *(Adnoddau Dynol)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Gweinyddu Costau Teithio *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau - Ysgol yr Hendre *(Corfforaethol)*
- Budd-daliadau - Cinio Ysgol am Ddim *(Cyllid)*
- Budd-daliadau - Lwfans Gwisg Ysgol *(Cyllid)*
- Prif System Gyfrifo *(Cyllid)*
- System Gyflogau - Cyflogau Misol Gweithwyr Llaw *(Cyllid)*
- Uned Ymchwiliadau Budd-dal *(Cyllid)*
- Cartrefi Preswyl y Cyngor - Trefniadau Diogelwch *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- Gwasanaeth y Crwner *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Amgueddfa Lloyd George *(Economi a Chymuned)*
- Cronfa'r Degwm *(Economi a Chymuned)*
- Manddaliadau *(Gofal Cwsmer)*
- Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Plant - Maethu *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- Trefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol *(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin 2011 i 31 Awst 2011, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# ARBEDION EFFEITHLONRWYDD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Diben yr archwiliad yw adolygu'r weithdrefn arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau arbedion effeithlonrwydd y Cyngor yn cwrdd â'r diffiniad corfforaethol o effeithlonrwydd.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar draws adrannau'r Cyngor sydd wedi eu cyflwyno i'r "Bwrdd 1%" a'u derbyn, yn ogystal â chynlluniau sydd o dan ystyriaeth, gan wirio eu bod yn arbedion sy'n deillio o effeithlonrwydd ac nid drwy dorri gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith bod rhai cynlluniau wedi eu derbyn fel arbedion effeithlonrwydd, er eu bod, yn dechnegol, yn doriadau. Fodd bynnag, gan fod y toriadau yma yn effeithio cyn lleied o drigolion Gwynedd, mae'r 'Bwrdd 1%' o'r farn bod yr arbedion yn cyfiawnhau'r toriadau. Hefyd, teimlwyd ar y pryd (Gorffennaf 2011) nad oedd digon o wybodaeth i gefnogi'r cynlluniau ac i sicrhau bod y Bwrdd 1% yn gallu gwneud penderfyniadau cywir.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Arbedion Effeithlonrwydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.**

***Amgaewyd dadansoddiad ac asesiad Archwilio Mewnol fesul cynllun (ar sail sampl) mewn tabl i sylw'r Adran Strategol a Gwella.***

# DEDDF DIOGELU DATA - TELEDU CYLCH CYFYNG
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle ar gyfer monitro systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) mewn ysgolion, ar fysiau ysgolion a sefydliadau Cyngor Gwynedd, a bod unrhyw ddefnydd o systemau teledu cylch cyfyng yn cydymffurfio â’r Deddf Diogelu Data 1998 yn ogystal â'r Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng.

Cwmpas yr Archwiliad

Cymryd sampl o anfonebau sydd wedi eu cyfeirebu i gôd dadansoddiad taliadau systemau teledu cylch cyfyng am y flwyddyn ariannol 2009/2010 a 2010/2011. Dethol anfonebau sydd yn berthnasol i gynnal systemau cylch cyfyng mewn ysgolion a hefyd ar gyfer cynnal system ar fysiau ysgol. Cysylltu â sampl o ysgolion a sefydliadau Cyngor Gwynedd i ymholi os oes ganddynt system mewn bodolaeth a beth yw eu trefniadau ar gyfer storio a rhyddhau’r data a gwrio bod y wybodaeth yn cyd-fynd â’r hyn sydd wedi ei gofnodi ar wefan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Gwirio ar gyfer cytundebau bysiau ysgol bod manylion priodol wedi eu cynnwys yn y cytundebau a bod monitro digonol ar y gwariant.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd wrth ymholi sampl o ysgolion a gwirio gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd pob ysgol wedi cofrestru i ddatgan eu bod yn defnyddio system teledu cylch cyfyng yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Ymddengys hefyd nad oedd pob ysgol yn ymwybodol o ofynion y Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng (CCTV Code of Practice) mewn perthynas â rhyddhau data yn dilyn cais i'w ddatgelu.

Nid oedd rheolaethau priodol wedi eu sefydlu dros systemau teledu cylch cyfyng ar fysiau. Roedd cryn gymhlethdod o safbwynt perchnogaeth y data a gwelwyd bod amrywiaeth sylweddol yn bodoli yn y prisiau a godir gan gwmnïau ar gyfer cynnal systemau teledu cylch cyfyng a diffyg cymalau priodol yn y cytundebau cludo plant i'r ysgol.

Ar gyfer sefydliadau Cyngor Gwynedd, darganfuwyd diffyg hyfforddiant diogelu data a rhyddid gwybodaeth ar gyfer rhai sefydliadau yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth o’r Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng a’i gofynion. Ar gyfer rhai sefydliadau darganfuwyd diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer delio gyda cheisiadau gan aelodau o’r cyhoedd neu’r heddlu i weld data o’r system teledu cylch cyfyng yn ogystal â derbyn data. Mewn rhai sefydliadau, gwelwyd diffyg rheolaeth o safbwynt niferoedd staff sydd gyda mynediad i’r systemau teledu cylch cyfyng.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Deddf Diogelu Data - Teledu Cylch Cyfyng gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid paratoi cyfarwyddyd a'i anfon i'r ysgolion yn mynegi y pwysigrwydd i gofrestru defnydd o system teledu cylch gyfyng gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.**
- **Dylid paratoi cyfarwyddyd a’i anfon i’r sefydliadau sydd â system teledu cylch cyfyng yn eu hysbysu am anghenion y Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng yn ogystal â’r ddogfen ‘Arweiniad ar Ddefnyddio Systemau Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Gwynedd’, a’r angen i sefydliadau gydymffurfio gyda’r gofynion.**

# RHEOLAETH CYNLLUN ORIAU YSTWYTH A "TOIL"
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod y cynllun gweithio oriau ystwyth yn cael ei weithredu'n unol ag Amodau a Thelerau Gwaith Lleol ar draws gwasanaethau'r Cyngor a bod rheolaeth briodol dros amser rhydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau gweinyddu a monitro'r cynllun oriau ystwyth ar draws hapsampl o unedau'r Cyngor (Staff G.P.T A Ch yn unig) i sicrhau cydymffurfiad gyda'r polisi ac i wneud argymhellion i wella unrhyw wendidau a ddarganfyddir.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod polisi mewn lle ar gyfer y Cynllun Oriau Ystwyth i staff a rheolwyr ei weithredu, a bod polisi ar gyfer cofnodi amser ychwanegol (TOIL) yn y broses o gael ei gyflwyno.

Wrth adolygu'r gweithdrefnau mewn lle ar draws gwasanaethau'r Cyngor, gwelwyd amrywiad yn y cydymffurfiad â chymalau'r Cynllun, gyda llawer achos o wyro'r rheolau i gyd-fynd â phatrwm gwaith unigolion.

Gwelwyd fod sgôp i adolygu cymalau'r Cynllun presennol gan ystyried os yw'n berthnasol fel telerau swydd i bob unigolyn sydd yn ei ddefnyddio, ac os yw ei gymalau yn cydweddu ag amcanion y Cyngor a'i Wasanaethau. Nodwyd fod rhai agweddau sydd heb bolisi ar eu cyfer a bod angen ffurfioli'r arweiniad fel bod cysondeb a thegwch ar draws y Cyngor, ac fel bod y gweithrediad yn hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor.

O safbwynt y cymalau o fewn y Cynllun sydd wedi eu barnu i fod yn briodol wedi'r adolygiad, ymddengys bod angen atgoffa rheolwyr a staff ohonynt i gynyddu'r lefel o gydymffurfiad.

O safbwynt goruchwylio, gwelwyd fod y mesurau a'r lefelau yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth.

Mae'r archwilwyr o'r farn y byddai yn briodol i bob goruchwyliwr osod mesurau mewn lle fel bod modd rheoli eu staff ac yna eu gweithredu i'r lefel briodol yn ôl disgresiwn. Credai'r archwilwyr fod mesurau syml y gellir eu gosod mewn lle i alluogi trefn fel hyn ar gyfer rheoli'r Cynllun Oriau Ystwyth a TOIL a sicrhau cydymffurfiad fel sydd y disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Rheolaeth Cynllun Oriau Ystwyth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir eu gwella. Mae camau wedi eu cymryd i sicrhau cysondeb gweithredu ar gyfer "TOIL". Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r Cynllun Oriau Ystwyth a'i gymalau gan ystyried os yw yn berthnasol ar gyfer dibenion y Cyngor a'i wasanaethau.**
- **Dylid sicrhau fod modd i reolwyr oruchwylio cofnodion oriau eu staff gan fynnu iddynt fod yn cael eu cadw mewn lleoliad aml-fynediad (e.e. disg 'L' adrannol) wedi eu gwarchod rhag addasu anawdurdodol.**
- **Dylid ffurfioli'r arweiniad sydd ar gyfer cofnodi oriau mewn sefyllfaoedd amwys, e.e. mynychu apwyntiad meddygol neu hyfforddiant, mewn polisi neu ganllaw corfforaethol fel bod cysoneb a thegwch ar draws y Cyngor. Dylid sicrhau fod y canllawiau hynny yn hyrwyddo'r gwasanaeth gorau gan y Cyngor.**

# SYSTEM TALIADAU - NEWID DATA SEFYDLOG
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau fod yna trefniadau priodol mewn lle ar gyfer derbyn a gweithredu ar gyfarwyddiadau i addasu data sefydlog yn y system taliadau.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r rheolaeth a'r trefniadau mewn lle ar gyfer derbyn a gweithredu ar gyfarwyddiadau newid data sefydlog gan gynnwys adolygu lefelau mynediad i'r system a chofnodion ar gyfer newidiadau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan yr Uned Taliadau weithdrefn wedi ei ddylunio ar gyfer gweithredu pan fod cais i addasu data sefydlog credydwyr yn cael ei dderbyn. Gwelwyd fod egwyddorion y weithdrefn hwnnw yn briodol ond bod diffyg trefn cofnodi a chyfiawnhau gweithrediadau gan staff yn arwain at ddiffyg tystiolaeth o weithredu yn unol â'r weithdrefn ac yn golygu efallai y byddai tystiolaeth annigonol petai angen ymchwilio i achos penodol a cheisio adnabod atebolrwydd am newid. Mae'r archwilwyr o'r farn bod y diffyg cofnodi a chyfiawnhau gweithrediadau yn tanseilio egwyddorion y weithdrefn sydd wedi ei osod mewn lle.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn System Taliadau - Newid Data Sefydlog gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu'r weithdrefn ar gyfer brosesu ceisiadau newid data sefydlog trwy greu trefn ffurfiol ar gyfer cofnodi gweithrediadau yn cynnwys disgrifiad a chanlyniad ymholiadau sydd wedi cymryd lle.**

# TRETH CYNGOR - CASGLIADAU AC AD-DALIADAU
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod casgliadau ac ad-daliadau treth y cyngor yn cael eu gweithredu mewn modd priodol a chyfreithiol sydd yn cydymffurfio â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau casglu ac ad-dalu taliadau Treth y Cyngor er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol a chyfreithiol mewn lle ar gyfer y weithred. Dewis sampl o gyfrifon Treth Cyngor perthnasol i'w brofi ac adrodd ar briodoldeb casglu ac ad-dalu taliadau Treth Cyngor.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer casgliadau ac ad-daliadau Treth Cyngor. Archwiliwyd y gweithdrefnau casglu arian y Treth Cyngor, trosglwyddiadau i'r system Academy, arian yn cael ei ddychwelyd, cysoniadau'r casgliadau a'r broses o adnabod a chlirio'r cyfrif dros dro ynghyd â threfnu ad-daliadau. Allan o'r sampl a archwiliwyd ni welwyd unrhyw anghysondebau.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Systemau Treth Cyngor - Casgliadau ac Ad-daliadau gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# DATBLYGU CHWARAEON
## Darparu a Hamdden

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw gwirio pa mor effeithiol ac effeithlon yw trefniadau Cyngor Gwynedd yn hybu'r nifer o drigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, fel rhan o gynllun cenedlaethol Chwaraeon Cymru, a bod y prosiectau yn cael eu rheoli a'u monitro yn effeithiol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yma yn cwmpasu trefniadau Gwynedd o weithredu amcanion cyffredinol Chwaraeon Cymru yn lleol, gan edrych yn fwy manwl ar gynlluniau Campau'r Ddraig, Datblygu Chwaraeon Anabledd a Ffitrwydd yn y Gymuned. Ni fydd yr archwiliad yn cwmpasu'r cynllun 5x60 gan ei fod wedi bod yn destun archwiliad arall yn ddiweddar. Bydd yr archwiliad yn gwirio os yw'r cynlluniau yn cyflawni amcanion cenedlaethol y Cynulliad a Chwaraeon Cymru.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwiriwyd trefniadau gweinyddiaeth yn ogystal â dangosyddion perfformiad drwy edrych ar sampl o raglenni Datblygu Chwaraeon a gwelwyd fod amcanion cenedlaethol Chwaraeon Cymru yn cael eu gweithredu, fodd bynnag, darganfuwyd gellir cryfhau trefniadau'r gwasanaeth o archebu a thalu am nwyddau drwy ddefnydd o system credydwyr y Cyngor.

Roedd cyfanswm costau'r Cynllun Cyflwyno Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol ar gyfer Gwynedd i'r flwyddyn ariannol 2010-11 yn £709,335 ac yn cael eu hariannu yn bennaf gan Cyngor Chwaraeon Cymru (£667,241), drwy'r Loteri a'r Cynulliad. Bu'r Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru yn llwyddiannus yn sicrhau amryw o grantiau ychwanegol i glybiau chwaraeon anabledd gan gynnwys grantiau oddi wrth Gronfa Arbrofol Eryri, 'Dewch i Gerdded Cymru' yn ogystal â noddwyr preifat. Golygai hyn bod cyfraniad ariannol Cyngor Gwynedd i'r Cynllun Datblygu Chwaraeon yn gymharol fychan.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn y rheolaethau mewnol mewn lle ar gyfer Datblygu Chwaraeon yng Ngwynedd.**

# TREFNIADAU TG I AELODAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd i adolygu'r trefniadau ar darpariaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer Aelodau.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ddarpariaeth o gyfrifiaduron i Aelodau a'r adnoddau cefnogol i'w galluogi i'w defnyddio i gyflawni eu dylwtswyddau mewn modd diogel.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar y cyfan, nid yw amcanion y Cynllun TG ar gyfer Aelodau wedi eu gwireddu. Er bod mwyafrif o'r Aelodau wedi arwyddo i fod yn rhan ohono a bod y lwfansau perthynol wedi bod yn cael eu talu ar sail misol, lleiafrif sydd wedi bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun. Cyfrifwyd bod amcangyfrif o £12,675 allan o'r £18,375 (sef 69%) a dalwyd fel lwfans TG yn 2010/11 wedi ei dalu i unigolion nad oedd yn cydymffurfio â'r Cynllun. Mae'r taliadau yma yn parhau ar adeg yr archwiliad, ac amcangyfrifwyd fod dros £1,050 o daliadau pob mis ar gyfer Aelodau sydd ddim yn cydymffurfio â'r Cynllun. Ymhellach i hyn, cyfrifwyd swm o £2,990 fel gwerth y teclynnau Citrix sydd wedi eu darparu i Aelodau a heb eu defnyddio. Yn ogystal, mae costau trwydded o £150 y flwyddyn ar gyfer defnyddio'r technoleg. Gwelwyd fod nifer o Aelodau ddim yn defnyddio'r adnoddau TG sydd wedi eu darparu ar eu cyfer ac yn defnyddio cyfrifon e-bost gwahanol. Oherwydd nad oes modd rhoi sicrwydd yn niogelwch unrhyw gyfrif e-bost di-gorfforaethol nid yw dogfennau o natur gyfrinachol yn cael eu hanfon atynt, yn hytrach cânt eu hanfon ar ffurf papur. Nid yw'r Archwilwyr o'r farn y dylid cyfaddawdu yn y maes yma, gan fod risgiau diogelwch yn sgîl anfon deunydd ar ffurf papur. Teimlai'r Archwilwyr fod angen i Aelodau gydnabod y risgiau sydd yn berthynol â mynediad anawdurdodol at wybodaeth gyfrinachol yn sgîl dosbarthiad ffisegol neu i gyfrif e-bost di-gorfforaethol, ac y dylent gydweithredu i sefydlu dulliau trosglwyddo gwybodaeth sydd yn lleddfu'r risgiau yma.

Mae nifer o ddulliau gweithredu amrywiol mewn lle gan Aelodau. Yn bennaf, mae hyn oherwydd bod trefniadau amrywiol mewn lle cyn i'r Cynllun presennol ddod i fodolaeth, a drwy ei gyflwyno fe cyflwynwyd haen ychwanegol i'w cefnogi. Teimlai'r Archwilwyr ei fod yn bwysig sicrhau na fyddai unrhyw gynlluniau TG a gyflwynir yn y dyfodol yn ychwanegu haen ychwanegol eto.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau TG i aelodau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **O ran diogelwch gwybodaeth ac i ostwng ar wariant, dylid gwthio ymlaen i sefydlu trefn fel bod pob dogfen (cyfrinachol ac arferol) yn cael ei anfon i Aelodau ar ffurf electroneg yn yr un modd â chofnodion a rhaglenni ar hyn o bryd, drwy hysbysu Aelodau (neu ddarpar ymgeiswyr) mai dyma yw'r unig ffurf y bydd modd iddynt gael mynediad at y dogfennau.**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw lwfans TG ond yn cael ei dalu lle mae priodoldeb i wneud hynny, sef os yw'r derbynnwyr yn gweithredu yn unol â'r hyn y mae'r lwfans ar ei gyfer, e.e ar gyfer y cynllun presennol, cyplysu taliadau gyda'r cofnodion o fewngofnodi i'r rhwydwaith corfforaethol.**
- **Dylid adolygu'r nifer o weithiau y mae meddalwedd trwyddedig wedi eu gosod ar linfyrddau i'w gwerthu i Aelodau a dylid sicrhau fod hynny wedi ei adlewyrchu yng nghofnodion trwyddedau'r Gwasanaeth TG.**

# TREULIAU AELODAU
## Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y taliadau am dreuliau i Aelodau yn gywir a phriodol ac yn unol â rheolau'r Cyngor a gofynion deddfwriaethol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r cyfarwyddiadau a roddir i Aelodau ar gyfer hawlio treuliau a chadarnhau eu bod yn eglur a hawdd eu dilyn. Dewis sampl o geisiadau costau teithio a chynhaliaeth a chadarnhau bod y ffurflenni wedi cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n briodol a bod cofnodion y systemau ariannol yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod gan y Gwasanaeth Cofrestru trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu treuliau aelodau. Gwelwyd bod y Swyddog Gweinyddol yn cynnal gwiriadau trylwyr ar geisiadau costau teithio yr Aelodau a bod cofnod o'r ceisiadau a gyflwynwyd. Gwelwyd y gwneir sawl gwiriad cyn rhyddhau'r taliadau a gwelwyd tystiolaeth y talwyd y treuliau ar y cyfraddau cywir.
Adolygwyd y ffurflen hawlio lwfansau a chredir y dylid ei hail-ddylunio i gynnwys colofn yn manylu ar enwau y sawl a gaiff eu cludo yn ogystal ag ychwanegu colofn 'dyddiad' ar gyfer manylu ar gostau cynhaliaeth eraill. Bydd hyn yn hwyluso a chynorthwyo'r Swyddog Gweinyddol i gynnal gwiriadau a chroeswirio ceisiadau.
Darganfuwyd bod mwyafrif yr Aelodau'n cyflwyno ceisiadau'n brydlon, ond gwelwyd un achos ble cyflwynwyd ceisiadau am 7 mis ar yr un pryd. Gall methiant i gyflwyno ceisiadau yn unol â'r canllawiau ystumio adroddiadau rheolaeth gyllidebol. Gwelwyd yn ogystal y cyflwynir ceisiadau am sawl mis ar yr un ffurflen - mynegir yn glir yn y 'Canllawiau - Hawlio Lwfansau Aelodau' y dylid hawlio pob mis ar ffurflen ar wahân.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Treuliau Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried diwygio'r 'Ffurflen Hawlio Lwfansau Aelodau' i gynnwys manylion y sawl a gaiff eu cludo ynghyd â manylion cyflawn unrhyw gostau cynhaliaeth eraill a hawlir ynghyd â diddymu'r angen i gofnodi darlleniadau dechrau a diwedd milltiroedd a blychau diwerth eraill i adlewyrchu gwir anghenion a dibenion prosesu treuliau aelodau.**

- **Dylid diwygio'r 'Canllawiau Hawlio Lwfansau Aelodau' i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir i'r 'Ffurflen Hawlio Lwfansau Aelodau'.**

- **Dylid sicrhau bod manylion llawn aelodau a gaiff eu cludo yn cael eu cofnodi'n gyflawn ar gyfer pob cais a gyflwynir i sicrhau tryloywder.**

- **Dylid atgoffa'r Aelodau o'r angen i gyflwyno ceisiadau lwfansau teithio a chynhaliaeth erbyn diwedd yr wythnos lawn gyntaf mewn unrhyw fis, a phwysleisio na delir unrhyw gais a gyflwynir yn hwyr *(ag eithrio amgylchiadau arbennig)*.**

**NEUADD DWYFOR**
**Economi a Chymuned**

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn Neuadd Dwyfor er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn briodol, ac yn unol â rheolau gweithdrefn ariannol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl cofnod yng nghyfriflyfr y Cyngor ar gyfer 2010/11. Profwyd hefyd trefniadau'r Neuadd er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd fod trefniadau yn gyffredinol dda yn y Neuadd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Neuadd Dwyfor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod dau swyddog yn bresennol pan fo'r arian sydd wedi ei dderbyn yn cael ei gysoni.**
- **Dylid gwneud trefniadau gyda'r Uned Gyllid i sicrhau fod yr elfen TAW o incwm llogi yn cael ei drin yn gywir pob amser.**
- **Dylid diwygio fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen 'ATODLEN I'R TELERAU CYFFREDINOL Y CYFEIRID ATYNT YN FLAENOROL MEWN CYTUNDEB A NEUADD DWYFOR PWLLHELI' yn unol â'r hyn nodir yn yr adroddiad.**
- **Dylid ceisio cwblhau archeb swyddogol pan archebir nwyddau/gwasanaethau yn hytrach nag ar ôl derbyn yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau bod arian imprest yn cael ei hawlio'n ôl yn rheolaidd**
- **Dylid sicrhau fod y rhestrau eiddo yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn flynyddol a dylai'r sawl sydd yn eu hadolygu a'u diweddaru eu harwyddo a'u dyddio fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu diweddaru.**
- **Dylid sicrhau fod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y Neuadd.**
- **Dylid symud ymlaen i gwblhau'r adolygiadau ar yr asesiadau risg cyn gynted â phosibl.**

## SYSTEM RHEOLI DEFNYDD O'R RHYNGRWYD MEWN LLYFRGELLOEDD
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd i adolygu'r trefniadau diogelwch mewn lle ar gyfer darparu gwasanaeth rhwydwaith i aelodau mewn llyfrgelloedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr adolygiad yn edrych ar y mesurau mewn lle ar gyfer rheoli sesiynau a diogelu adnoddau mewn llyfrgelloedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Fe welwyd fod system rheoli sesiynau cyfrifiadurol cyhoeddus mewn defnydd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Nodwyd fod y system yn galluogi i'r Gwasanaeth gyflawni eu anghenion i ddarparu gwasaneth priodol a bod staff yn adrodd am berthynas da gyda'r cyflenwyr.

Gwelwyd fod mesurau mewn lle i ddiogelu'r isadeiledd gan gynnwys ynysu'r parth, rheoli hawliau mynediad defnyddwyr, hidlo'r deunydd a ellir ei lawrlwytho, mesurau gwrth-firws a di-ystyru unrhyw addasiadau answyddogol i osodiadau. Gwelwyd fod cyfleusterau adrodd digonol ar gael i weinyddwyr y system rheoli.

Gwelwyd fod polisi defnydd wedi ei lunio sydd yn cynnwys gwybodaeth am y disgwyliadau penodol. Tra'n cynnal gwaith archwilio nodwyd fod amgylchiadau yn gallu codi lle bod rhaid i ddefnyddwyr fynegi eu bod yn derbyn y gofynion a parhau â'r sesiwn cyn cael cyfle i'w ddarllen. Mae'r archwilwyr o'r farn y dylai defnyddwyr wynebu'r polisi, mewn ffurf cryno, gydag opsiwn i'w dderbyn neu beidio cyn bod modd cael cyfle i ddechrau defnyddio unrhyw gymwysiadau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau y system rheoli defnydd o'r rhyngrwydd mewn llyfrgelloedd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai addasu'r ffurf y mae sesiynau cyfrifadurol mewn llyfrgelloedd yn cychwyn fel bod defnyddwyr yn gwynebu'r polisi wedi ei grynhoi a'r angen i dderbyn ei gynnwys cyn gallu cael mynediad at unrhyw gymwysiadau.**

# RHEOLAETH ASBESTOS
## Gofal Cwsmer

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr Archwiliad yw sicrhau fod rheolaethau digonol mewn lle ar gyfer rheoli asbestos yn adeiladau'r Cyngor gan gynnwys cynnal yr arolygiadau a thrin unrhyw achos o asbestos fel yn berthnasol.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu'r trefniadau mewn lle drwy ymholi'r swyddogion perthnasol yn yr Uned Eiddo ac adolygu sampl o waith a wnaed yn ystod 2009/10 a 2010/11.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Ar y cyfan, gwelwyd fod system briodol mewn lle ar gyfer rheoli asbestos mewn adeiladau corfforaethol y Cyngor.
Fe welwyd fod Polisi a Cynllun Rheolaeth Asbestos mewn lle, bod trefn adolygu gyfnodol ar eu cyfer a bod sesiynau hyfforddiant asbestos yn cael ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r rheolaeth ddisgwyliedig ar gyfer asbestos.
Gwelwyd fod system electroneg mewn lle ar gyfer rheoli holl adeiladau'r Cyngor gyda modiwl cynhwysfawr ar gyfer rheoli asbestos. Fe welwyd bod rhaglen gwaith mewn lle ar gyfer arolygu risgiau asbestos ym mhob adeilad.
Gwelwyd tystiolaeth fod y swyddogion perthnasol gyda'r cymwysterau priodol ar gyfer rheoli asbestos, a nodwyd bod pob cwmni allanol mae'r Cyngor wedi eu defnyddio ar gyfer rheoli asbestos gyda'r trwyddedau neu'r achrediadau priodol.
Nodwyd, ar adeg yr archwiliad, nad oedd y gwaith adnabod yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen yn y rhaglen gwaith. Awgrymwyd fod amgylchiadau penodol wedi achosi hynny, a bod cynllun mewn lle i gwblhau'r gwaith cyn ddaw'r cytundeb presennol i ben ym mis Hydref.
Fel rhan adolygiad ffeiliau, gwelwyd nad oedd briff gwaith wedi ei greu ym mhob achos. Nodwyd fod yr Uned wedi datblygu eu trefniadau yn ystod y 12 mis blaenorol, a bod y briff, ynghyd ag amcangyfrif am gost y gwaith yn seiliedig arno, yn cael ei gadw ar ffeil yn dilyn hynny.
Nodwyd yn ogystal nad oedd ffurflenni cais am wybodaeth a materion asbestos ar y ffeiliau ym mhob achos. Mae'r rhain yn ffurflenni a fyddai yn cael eu cyflwyno gan reolwyr safle. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eisoes wedi gwneud sylwad fod angen sicrhau fod ymwybyddiaeth a chydweithrediad ynglŷn â materion mewn perthynas ag asbestos ar draws y Cyngor. I'r perwyl yma, gwelwyd fod yr Uned Eiddo a'r Uned Iechyd a Diogelwch wedi ymdrechu i dynnu sylw staff at y Polisi a'r Cynllun Rheoli Asbestos drwy ddarparu hyfforddiant yn y maes ynghyd â rhoi hysbysiad mewn pob slip cyflog ac ysgrifennu yn uniongyrchol i bob pennaeth adran.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Rheolaeth Asbestos gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae un argymhelliad:**

- **Dylai'r Uned Eiddo sicrhau fod y Polisi Asbestos a'r Cynllun Rheoli Asbestos diweddaraf yn cael ei ddiweddaru yn sgil trosglwyddiad Stoc Tai Cyngor Gwynedd i Gartrefi Cymunedol Gwynedd a newidiadau yn strwythur y Cyngor.**

## CONTRACTAU REFENIW GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
### Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau tendro a monitro cytundebau refeniw y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth ac ymarfer da.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau tendro a monitro sampl o gytundebau refeniw diweddar y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r sampl yn cynnwys trefniadau gwahodd darparwyr gwasanaeth gofal cartref i ymuno â rhestr o ddarparwyr sydd wedi eu cymeradwyo yn ogystal â chytundeb gwasanaeth anabledd dysgu diweddar a ddyfarnwyd i ddarparwr allanol.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd fod trefniadau tendro a monitro cytundebau refeniw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol, fodd bynnag, gwelwyd bod risg o gytundebau yn cael eu dyrannu yn anghywir oherwydd camgymeriadau wrth werthuso tendrau yn unol â'r meini prawf.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Contractau Refeniw Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Buasai'n ymarfer da petai cytundebau yn cynnwys yr angen am dystysgrif sy'n dangos cydymffurfiaeth ag unrhyw safonau e.e. CSSIW neu ISO 9000.**
- **Dylid nodi teitl swydd yr unigolion sy'n arwyddo cytundebau er mwyn profi bod y gytundeb wedi ei arwyddo gan berson dilys o'r contractwyr a gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor.**
- **Dylai cyfrifiadau'r meini prawf cael eu gwirio gan ddau swyddog cymwys, er mwyn sicrhau cywirdeb.**
- **Dylai sicrhau bod y tendrau wedi eu gwirio am gywirdeb a chyflawnrwydd, gan gynnwys gwirio nad yw'r tystlythyrau i gyd yn dod oddi wrth swyddogion o fewn Cyngor Gwynedd.**
- **Dylid sicrhau bod anfonebau yn cael eu codio yn gywir i system ariannol y Cyngor.**

# CYNNAL A CHADW'R GAEAF
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw adolygu strategaeth a rhaglen rheoli gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Gaeaf gan sicrhau bod rheolaethau digonol mewn lle er mwyn gweithredu amcanion y gwasanaeth.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Lluniwyd yr adroddiad drwy archwilio cofnodion rheolaeth gwasanaeth y gaeaf.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Cynhaliwyd profion archwilio ar 21 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 16 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oedd posibl rhoi dibyniaeth gyflawn ar y system a ddefnyddir er mwyn derbyn tystiolaeth o weithrediad graeanu Cyngor Gwynedd ac nad oedd gweithwyr Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd pob tro yn gweithredu cyfarwyddyd y Gwasanaeth Comisiynu wrth raeanu halen ar ffyrdd Gwynedd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Gaeaf gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod yr wybodaeth sy'n cael eu manylu yng Nghynllun Gweithredol Gwasanaeth Gaeaf Cyngor Gwynedd a Chynllun Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru am beiriannau a cherbydau graeanu sydd ar gael gan y Cyngor yn cysoni ac yn gywir.**

- **Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau ei bod yn addasu'r Dulliau Gweithredu Cynnal y Gaeaf i gyd fynd a chynllun Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a addaswyd yn Hydref 2010.**

- **Dylid sicrhau bod modd cynhyrchu adroddiadau graeanu cyflawn sy'n olrhain hanes pob lledaeniad graeanu a wneir oddi wrth y system.**

- **Dylid sicrhau fod y gyrwyr yn ymwybodol o'r pwysigrwydd eu bod yn lledaenu graean ar y raddfa a benderfynwyd gan y swyddogion perthnasol.**

- **Dylid sicrhau fod cyfarwyddiadau amser dechrau graenu yn cael ei ymlynu ato gan weithwyr y Gwasanaeth Gwaith Priffyrdd.**

- **Dylai'r Peirianwyr Ardal wneud gwiriadau hap drwy dderbyn adroddiadau "Detailed Gritting Report" ar gyfer y cerbydau graeanu gan ddilyn cynnwys yr adroddiad yn ôl i'r penderfyniad a wnaethpwyd.**

## TREFNIADAU AR ALWAD AC AR DDYLETSWYDD PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL
### Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod taliadau ‘ar alwad’ ac 'ar ddyletswydd' Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cael eu gweinyddu’n gywir ac yn unol â rheolau gweithio'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o daliadau ‘ar alwad’ ac 'ar ddyletswydd' a dalwyd i rai o weithwyr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2010/11 gan sicrhau bod trefn gadarn o fewn yr Adran i gyfiawnhau'r taliad. Archwilio trefniadau'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gogyfer gweinyddu trefniadau 'ar alwad' ac 'ar ddyletswydd'.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae gwasanaeth ar alwad ac ar ddyletswydd yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn costio £150,000 y flwyddyn i'w gynnal (ffigyrau 2010/11). Mae hyn yn galluogi'r Adran i gynnal gwasanaeth am 24 awr y diwrnod drwy’r flwyddyn. Gwelwyd fod rhai gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni tu allan i’r oriau gwaith arferol yn waith argyfwng (megis graeanu) ond gellir rhesymoli bod gweithiau eraill yn llai argyfyngus (e.e. dadflocio draeniau). Roedd adegau ble roedd swyddogion wedi derbyn tâl ar alwad neu ar ddyletswydd ond heb dderbyn unrhyw alwadau. Fodd bynnag, gwelwyd hefyd nifer o achosion ble roedd swyddogion wedi gorfod gweithredu yn ystod yr oriau anghymdeithasol ble roeddynt yn derbyn y lwfans. Er bod rhai o weithwyr yr Adran yn gweithio yn wirfoddol tu allan i oriau gwaith (heblaw am daliad am oramser) gellir rhesymoli bod talu i weithwyr am yr anhwylustod i fod ar alwad neu ar ddyletswydd yn sicrhau’r gwasanaeth. Mae trefniadau cadarn yn ei le o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer sicrhau gwasanaeth (e.e. rotas yn eu lle). Fodd bynnag, roedd gwendidau mewn trefniadau talu ac mae angen i'r Adran gydweithio gyda'r Adran Gyllid i ddatrys yr anghysondebau a adnabuwyd er mwyn cysoni a chywiro'r drefn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau ar alwad ac ar ddyletswydd Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cysondeb yn y lefel tâl cydnabyddiaeth mae swyddogion yn ei dderbyn am fod ar alwad ac ar ddyletswydd ar draws Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. O fis Ebrill 2011 y graddfeydd cywir yw £252.50 yr wythnos am fod ar ddyletswydd a £151.50 am fod ar alwad.**

- **Dylai’r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol tynnu’r taliad llinell ffôn tŷ oddi wrth yr holl swyddogion sydd gyda ffonau symudol ond rhoi ystyriaeth i gais gan swyddogion am lwfans ffôn tŷ os ydynt yn gallu cyfiawnhau eu bod angen y cyfleuster. Os penderfynir talu'r lwfans ffôn yna dylai fod cysondeb yn lefel y tâl ar draws yr Adran.**

- **Dylid cyflwyno ceisiadau am gynhaliaeth ar alwad ac ar ddyletswydd yn brydlon, yn enwedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel bod y taliadau yn cael eu dangos yn y cyfnod cyfrifo cywir.**

# CYSONI INCWM PARCIO A DIRWYON
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaethau mewnol mewn lle ar gyfer cysoni a prosesu yr arian sydd wedi eu casglu ar ran y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Cwmpas yr archwiliad yw adolygu'r trefniadau cysoni arian y maesydd parcio sy'n cael eu casglu gan gwmni diogelwch ac incwm y dirwyon parcio sy'n cael eu prosesu gan Gyngor Sir Dinbych.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 o reolaethau mewnol a dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 7 o’r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oes trefniadau mewn lle yn yr Uned Parcio i gysoni’r incwm a gesglir o’r peiriannau parcio talu ac arddangos nag i fonitro a gwirio fod y peiriannau yn cael eu gwacáu yn unol â’r cytundeb. Gwelwyd yn ogystal fod Cyngor Gwynedd wedi talu am wasanaeth nad oeddynt wedi ei dderbyn gan y cwmni casglu. Yn ogystal nid oedd incwm oedd yn “ringfenced” yn cael ei godio i’r cyfrif cywir yn y Cyfrifon

**Barn yr Archwiliad**

**(CH) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.**

- **Dylai’r Uned Parcio wirio cynnwys yr atodlenni sydd ynghlwm i’r anfonebau am eu cywirdeb a hysbysu’r cwmni casglu yn syth am unrhyw newidiadau i drefniadau casglu o'r peiriannau.**

- **Dylai’r Uned Parcio ddefnyddio’r adroddiadau “GCCP Reconciliation” a dderbynnir oddi wrth y cwmni casglu i gadarnhau fod y peiriannau wedi eu gwacáu yn brydlon ac i amlygu unrhyw anghysondebau yng nghyfanswm yr arian a gesglir.**

- **Er mwyn sicrhau cysondeb yn nhrefniadau monitro incwm y meysydd parcio dylid sicrhau fod y peiriannau parcio o fewn cynllun Menter Goriad Gwyrdd Eryri yn dod yn rhan o oruchwyliaeth yr Uned Parcio yn Neuadd y Dref Bangor.**

- **Dylai’r Uned Gyllid Grwp Amgylchedd dderbyn adroddiad yn fisol o achosion ble mae swyddogion yr Uned Parcio wedi dileu dirwyon. Dylid dewis sampl o ddirwyon sydd wedi eu dileu er mwyn derbyn eglurhad a chyfiawnhad o’r rhesymau dros ddileu'r dirwyon.**

- **Dylai’r Uned Gyllid Grwp Amgylchedd a’r Uned Parcio gysoni’r incwm sy’n ymddangos ar y system rheoli dyledwyr i’r incwm fel sy’n ymddangos ar Gyfriflyfr y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.**

# PROSIECT PONT BRIWET
## Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan Cyngor Gwynedd drefniadau cadarn a digonol gogyfer cyflawni gwaith uwchraddio ar bont Briwet.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu trafod sefyllfa ddiweddaraf y prosiect gyda'r swyddogion perthnasol (mis Mai 2011) ac yn asesu trefniadau'r Adran Rheoleiddio dan wahanol benawdau gogyfer gweinyddu'r prosiect, ac yn arbennig yr amodau sy'n cael eu gosod gan WEFO.

Prif Ddarganfyddiadau

Gan mai Cyngor Gwynedd yw hyrwyddwr y prosiect ac yn atebol am gyllid grant ERDF a TraCC, mae risgiau sylweddol i'r Cyngor yn y cynllun hwn, yn ariannol ac enw da (reputational). Mae'r prosiect yn gymhleth yn nhermau cyfrifo a dynameg gweithio mewn partneriaeth, a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu strwythur pont newydd. Mae angen sicrhau bod trefniadau cefnogol gweinyddol yn eu lle mor fuan â phosibl a cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y cynllun, fel bod sicrwydd yn gallu cael ei roi ar yr amgylchedd rheolaethol. Mae sefydlu trefn gadarn i reoli'r grant yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ble nodir (paragraff 24.2) bod rhaid i brif swyddogion "sicrhau cydymffurfiaeth gydag amodau allweddol y gronfa ariannol ac unrhyw ofynion statudol, a bod cyfrifoldebau'r corff atebol, boed hynny yn Gyngor Gwynedd neu trydydd parti, wedi eu deall yn llwyr".

### Barn yr Archwiliad

**Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng nghynllun uwchraddio Pont Briwet gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu trefn, mewn cydweithrediad gyda'r Adran Gyllid, er mwyn sicrhau bod holl gostau'r prosiect yn cael eu cofnodi (costau Network Rail a Cyngor Gwynedd) a bod trefn gadarn yn ei le er mwyn arddangos pwy sy'n cyllido elfennau o'r gwaith. Byddai hyn yn sicrhau bod modd adnabod taliadau 'matching' y cynllun (e.e. gwariant uniongyrchol Network Rail), yn ogystal â gosod rheolaeth i adnabod elfennau cymwys ac anghymwys o'r grant.**

- **Dylid sefydlu cyllideb refeniw ar gyfer cynllun Pont Briwet (ymofyniad paragraff 24.2 (c) o Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor). Dylid ystyried hysbysebu swydd Cydlynydd Prosiectau fel bod modd cyfalafu'r cyflog fel rhan o'r ased ac er mwyn adhawlio grant am y costau cyflogi. Dylid hefyd ystyried adennill costau swyddogion eraill sydd yn ynghlwm ar y prosiect, ond byddai rhaid i swyddogion nad sy'n gweithio'n llawn amser ar y cynllun gwblhau amserlenni gwaith.**

- **Dylid sicrhau nad oes costau wedi eu cyfalafu yn groes i reolau cyfrifo cyfalaf.**

# CAFFAEL CYNALIADWY
## Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw i sicrhau bod gwerth mwyaf posib yn deillio o bolisi caffael cynaladwy Cyngor Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn gwirio os oes gan Uned Gaffael drefniadau mewn lle ar gyfer mesur effaith y polisi oddi fewn Cyngor Gwynedd a sicrhau bod targedau a threfniadau mewn lle ar gyfer y dyfodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelir bod y polisi yn mynegi "Mae caffael cynaladwy yn ymwneud ag ystyried ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar y cyd â ffactorau ariannol wrth wneud y penderfyniadau hyn. Mae'n ymwneud ag edrych y tu draw i'r paramedrau economaidd traddodiadol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar gostau oes gyfan, y risgiau cysylltiedig, mesurau llwyddiant a'r goblygiadau ar gyfer y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd."
Pan gynhaliwyd yr archwiliad profwyd gydymffurfiaeth gydag Amcanion y Polisi Caffael Cynaladwy sef:

1. Sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi y cyflenwyr priodol, yn cynnwys busnesau bach a chanolig, cwmniau preifat a'r trydydd sector, i geisio am gytundebau'r Cyngor.
2. Lleihau effaith amgylcheddol drwy gwell detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith.
3. Creu amgylchedd sydd yn darparu cyfleoedd i uchafu'r cuddion yn deillio o gynnwys a gweithredu meini prawf cymdeithasol o fewn gweithgareddau caffael.
4. Sicrhau fod asesiadau gwerth am arian yn cael eu selio, llen briodol, ar gostau gydaol oes.

Gwelwyd mai'r prif ddarganfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad yw'r ffaith nad oes gan yr Uned dargedau na fformat mesur effaith a llwyddiant y Polisi Caffael Cynaladwy fel y nodir uchod. Fodd bynnag, gwelir bod gan y gwasanaeth bolisi a chanllawiau clir a syml mewn lle ar gyfer rhoi cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Caffael Cynaladwy gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ceisio gweithredu ar y syniadau ar gyfer hysbysebu'r polisi cyn gynted a sydd bosib a chyn diwedd Medi 2011.**

- **Awgrymir i'r Uned Gaffael gysylltu yn uniongyrchol gyda Penaethiaid / Uwch Reolwyr y Gwasanaethau sydd ddim yn cydymffurfio gyda Pholisïau / Chanllawiau yr Uned e.e ar dendrau gwerth dros £500k, a sicrhau eu bod yn deall rhain ac yn cytuno i gydymffurfio yn y dyfodol.**

- **Dylid Gwasanaethau gysylltu gyda'r Uned Gaffael yn unol â'r polisi.**

- **Dylid sicrhau bod trefniadau mewn lle yn y gwasanaeth ar gyfer mesur effaith y polisi ar gyfer y dyfodol.**